**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**
**a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda ar 30 Mawrth 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Endaf Edwards (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Euros Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Eryl Evans, Paul Hinge, Chris James, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan a Mark Strong

**Hefyd yn bresennol:-** Mr Jonny Greatrex (Aelod Cyfetholedig)

**Hefyd yn y cyfarfod:** Y Cynghorydd Wyn Thomas (Aelod Cabinet)

**Swyddogion yn bresennol**: Mrs Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Ysgolion; Mrs Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Dysgu Gydol Oes a Diwylliant; Ms Gillian Evans, Rheolwr Corfforaethol - ADY, Cynhwysiant a Llesiant; Ms Nia James, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Dysgu; Ms Catrin Petche, Arweinydd Tîm - Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg; Mrs Laurie Hughes, Athrawes Ymgynghorol Llesiant, Gwasanaethau Dysgu; Miss Lowri Evans, Rheolwr Corfforaethol - Cymorth Cynnar, Porth Cymorth Cynnar; Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(10.00-12:50pm)

1 **Ymddiheuriadau**

Dim.

Dywedodd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Mrs Meinir Ebbsworth gan ei bod yn gadael ei swydd fel y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Ysgolion. Diolchodd yr holl Aelodau a'r Aelod Cabinet iddi am ei gwaith a'i hymroddiad wrth wella addysg yn y Sir ers iddi gael ei phenodi i'r swydd chwe blynedd yn ôl. Diolchwyd yn arbennig iddi am ei gwaith yn ystod y pandemig a dymunwyd yn dda iddi i'r dyfodol. Wrth ymateb, diolchodd Mrs Ebbsworth i'r Cynghorwyr, y staff a'r athrawon am eu gwaith, eu hymroddiad a'u cefnogaeth yn ystod ei chyfnod fel y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Ysgolion.

2 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim.

**3** **Cynllun Gweithredu y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 (CSGA)**

Ystyriwyd Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32. Yn unol ag adran 84, Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, roedd disgwyl i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru. Roedd y cynllun a luniwyd yn cydymffurfio â rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru 2019 ac roedd Cabinet Cyngor Ceredigion wedi mabwysiadu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar 22 Chwefror 2022. Cymeradwywyd y cynllun gan Lywodraeth Cymru ar 20 Gorffennaf 2022.

Roedd y cynllun yn un strategol a oedd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol er mwyn datblygu a chryfhau'r Gymraeg:

**Deilliant 1:** Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 3:** Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

**Deilliant 4:** Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 5:** Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr Ysgol

**Deilliant 6:** Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau
a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

**Deilliant 7:** Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Ar ôl cymeradwyo'r cynllun, o dan adran 85(7), Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, roedd yn rhaid i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu eu CySGA a pharatoi cynllun gweithredu, a fyddai'n cael ei fonitro yn flynyddol ar ffurf adroddiad adolygu. Roedd y Cynllun Gweithredu yn nodi lle'r oedd yr Awdurdod Lleol arni yn 2022 yn y meysydd dan sylw ac roedd yn egluro beth oedd y nod ymhen 5 mlynedd a sut y byddai modd cyrraedd hynny. Yn ogystal, amlinellwyd y nodau a'r hyn a ddisgwylid ar ddiwedd oes y Cynllun ymhen degawd. Roedd y Cynllun Gweithredu a gyflwynwyd yn rhoi trosolwg o'r gweithdrefnau dros 5 mlynedd, ac roedd y cynllun gweithredol mwy manwl ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf yn nodi cyfrifoldebau staff penodol o ran gwireddu'r camau gweithredu angenrheidiol.

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft y cynllun gweithredu i'r Llywodraeth ar 23 Rhagfyr 2022. Cafwyd cadarnhad ar 28 Chwefror 2023 fod y camau

gweithredu a'r amserlen yn glir ac yn bwrpasol. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredu a gyflwynwyd. Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y cynllun gweithredu yn ddogfen fyw a hyblyg y byddai angen ei diwygio ar hyd y ffordd yn ôl anghenion a datblygiadau lleol. Byddai'r cynllun gweithredu yn cael ei fonitro bob tymor gan Fforwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r is-bwyllgorau yn ôl yr angen.

Un o'r camau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu oedd dechrau'r broses ymgynghori ar gyfer newid cyfrwng iaith y Cyfnod Sylfaen mewn pum ysgol yn y sir. Er mwyn cysoni oed derbyn y pum ysgol, cytunwyd yn y CySGA y byddai tair ysgol yn newid eu hoed derbyn i 3 oed, yn lle 4 oed. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, roedd angen caniatâd Cabinet y Cyngor ar gyfer dechrau'r broses ymgynghori, a byddai papur yn mynd gerbron y Cabinet ar 2.5.23. Pe byddai'r Cabinet yn rhoi ei ganiatâd yn y cyfarfod hwnnw, y bwriad oedd dilyn yr amserlen ganlynol o ran y broses statudol ynghylch cynnal ymgynghoriad.

| | |
|---|---|
| 30 Mawrth 2023 | Pwyllgor Craffu |
| 2 Mai 2023 | Cabinet |
| 15 Medi – 30 Hydref 2023 | Cyhoeddi Dogfennau Ymgynghori<br><br>**Cod Trefniadaeth Ysgolion 3.4**<br>***Rhaid*** *cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar un o ddiwrnodau ysgol yr ysgol neu'r ysgolion y mae'r cynnig yn ymwneud â hi/nhw, a* ***rhaid*** *rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i bobl ymateb i'r ddogfen, gydag 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol.* |
| 9 Ionawr 2024 | Cabinet<br>**Cod Trefniadaeth Ysgolion 3.6**<br>***Rhaid*** *i'r cynigydd gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad ar ei wefan neu wefan yr awdurdod lleol perthnasol.* ***Rhaid*** *cyhoeddi'r adroddiad o leiaf pythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.* |
| 22 Ionawr – 19 Chwefror 2024 | ***Cod Trefniadaeth Ysgolion 4.1***<br>*Cyhoeddi hysbysiad statudol*<br>*Rhaid i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol ond nid ar ddiwrnod ysgol sy'n cynnwys sesiwn sydd wedi'i neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i wella safonau addysgu neu arferion rheoli staff yn yr ysgol (diwrnodau hyfforddiant mewn swydd).*<br>*Rhaid i'r cyfnod gwrthwynebu gynnwys 15 diwrnod ysgol (yn ychwanegol at y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad). Rhaid cyhoeddi am 28 diwrnod.* |

| | |
|---|---|
| 4 Mehefin 2024 | Cabinet<br>Penderfyniad i weithredu ai peidio |

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i argymell i'r Cabinet:-
(i) i fabwysiadu Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032, a'i weithredu o ddechrau tymor yr haf 2023, a'i adolygu'n flynyddol;
(ii) y byddai'r Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro drwy gyfrwng cyfarfodydd Fforwm Iaith y CySGA a phwyllgor Dyfodol Dwyieithog;
(iii) y byddai adroddiad blynyddol am y cynnydd a wnaed o ran Cynllun Gweithredu Cynllun Strategol Addysg y Gymraeg yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm Iaith, y Pwyllgor Dyfodol Dwyieithog, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet; ac
(iv) yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, y byddai'r Awdurdod Lleol yn dechrau ar y broses o newid cyfrwng iaith y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion Comins Coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug a Chei Newydd. Yn ogystal, byddai ymgynghoriad parthed newid oed derbyn mewn tair ysgol sef Comins Coch, Padarn Sant a Chei Newydd yn cyd-fynd â hyn. Byddai'r cyfnodau ymgynghori hyn yn dechrau ar 15 Medi 2023.

**4 Egwyddorion isadeiledd cynaliadwy ar gyfer addysg**

Ym mis Tachwedd 2018, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei chod statudol o ran trefniadaeth ysgolion a chyflwynodd gymal rhagdybiaeth yn erbyn cau ar gyfer ysgolion gwledig. Roedd y diffiniad ysgol wledig wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio categorïau gwledig a threfol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac o ganlyniad, roedd 28 o ysgolion yng Ngheredigion wedi'u diffinio fel ysgolion gwledig.

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 15 Medi 2021, diddymwyd y Polisi Adolygu Ysgolion a mabwysiadwyd y llawlyfr i gyd-fynd â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd gweithdy i gyflwyno'r llawlyfr. Gan fod cyfnod y ddogfen Datblygu Addysg wedi dod i ben yn 2020, roedd yn amserol cyflwyno dogfen a oedd yn amlinellu egwyddorion y gwasanaeth i'r dyfodol.
Ar hyn o bryd, roedd y cod statudol yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ddilyn cyfres o weithdrefnau a gofynion manylach wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig, ymgynghori ar y cynnig hwnnw, a phenderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig i gau ysgol wledig ai peidio.

Cyn penderfynu a ddylid mynd ati i gynnal ymgynghoriad, byddai'n rhaid paratoi a chyflwyno papur cynnig i'r Ffrwd Waith Cymunedau sy'n Dysgu. Yn dilyn cyfarfod o Ffrwd Waith y Pwyllgor Craffu, byddai'r papur cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel y gellid ystyried a ddylid:

a) Cymeradwyo'r cynnig a mynd ati i gynnal ymgynghoriad statudol
b) Gwrthod y cynnig

c) Cynnig opsiwn amgen

Byddai'r papur cynnig wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n Dysgu cyn y byddai Ymgynghoriad Statudol yn cael ei gynnal.

Byddai unrhyw benderfyniad yn cael ei seilio ar yr Egwyddorion yn Atodiad A ynghyd â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf).

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i wneud y canlynol:

(i) argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r Ddogfen Egwyddorion Isadeiledd Cynaliadwy (Atodiad A) ar gyfer addysg; a
(ii) cadarnhau aelodaeth y ffrwd waith trawsbleidiol a fyddai'n trafod unrhyw bapurau cynnig a ddaw gerbron yn unol â'r Llawlyfr Trefniadaeth Ysgolion.

**5 Diweddariad mewn perthynas ag Addysg Ddewisol yn y Cartref**

Croesawodd y Cadeirydd Ms Catrin Petche, Arweinydd Tîm y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg i'r cyfarfod i roi cyflwyniad PwyntPwer i'r Aelodau am addysg ddewisol yn y cartref. Amlinellwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Y cefndir cyfreithiol
- Nifer y plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref
- Y darlun yng Ngheredigion
- Ymweliadau cartref a gwblhawyd yn ystod y 12 mis diwethaf
- Nifer y disgyblion sydd wedi cael eu haddysgu gartref
- Nifer y disgyblion sydd wedi dychwelyd i'r ysgol
- Dyletswyddau
- Gorchmynion Mynychu'r Ysgol
- Diogelu
- Gweithio gyda Rhieni

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r canlynol:
(i) niferoedd presennol y plant sy'n cael eu haddysgu gartref yng Ngheredigion; a'r
(ii) modd y mae'r Gwasanaeth Ysgolion yn adolygu darpariaeth y plant sy'n cael eu haddysgu gartref.

**6 Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Laurie Hughes, yr Athrawes Ymgynghorol Llesiant i'r cyfarfod i ddarparu gwybodaeth am y newidiadau diweddar o ran Addysg Ryw a'r broses o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y Cwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol bolisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb addas y gallai'r ysgolion ei fabwysiadu a'i addasu. Byddai'r polisi yn

cefnogi'r ysgolion i ymgorffori'r cwricwlwm newydd a byddai'n darparu cymorth, gwybodaeth, cysondeb ac eglurder.
Yn ystod ei chyflwyniad PwyntPwer, rhoddodd y wybodaeth ganlynol:

- Y Cefndir
- Beth yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?
- Y Cynnwys Polisi
- Y sefyllfa Bresennol
- Cefnogaeth i Ysgolion

CYTUNWYD i wneud y canlynol:-

(i) mabwysiadu cynnwys Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Ceredigion; a
(ii) nodi y byddai unrhyw sylwadau a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys fel newidiadau i'r Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

**7 Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (03.02.23)**
CYTUNWYD i nodi'r cofnodion fel y'u cyflwynwyd.

**8 Y diweddaraf am Ffrydiau Gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**
CYTUNWYD i nodi gwaith y ffrydiau gwaith fel y'i cyflwynwyd.

**9 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion**
CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor yn gywir.

**10 I ystyried Blaenraglen Waith Ddrafft 2022/23**
Cytunwyd i nodi'r Flaenraglen Waith ddrafft fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar y canlynol:-
(i) y byddai'r adroddiad am addysg ôl-16 yn y Sir a chynllun busnes a memorandwm cyd-ddealltwriaeth Canolbarth Cymru yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod ym mis Mehefin; ac
(ii) y byddai adroddiadau Estyn am arolygon diweddar yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf;

Roedd yr Aelod Cabinet yn dymuno nodi y byddai disgyblion Blynyddoedd 2 a 3 yn derbyn prydau ysgol am ddim ar ôl y Pasg. Roedd hefyd yn dymuno llongyfarch pawb a fu'n rhan o gyngerdd fawreddog yr ysgolion a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

**Cadeirydd:**___________________

**Dyddiad:**_____________________